| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Mehefin 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Adolygiadau Datblygiad Personol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro cefndir adolygiadau datblygiad personol ar gyfer aelodau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybodaeth i'r pwyllgor am adolygiadau datblygiad personol a cheisio adborth gan y pwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau neu argymhellion priodol o ran y broses adolygu datblygiad personol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP) ar gael i bob cynghorydd. Mae ADP yn ffordd i aelodau a'r Cyngor asesu anghenion datblygu personol aelod gyda'i gilydd. Byddai'r adolygiad wedi'i osod yng nghyd-destun rôl yr aelod, eu dyheadau ar gyfer yr hyn y maen nhw'n gobeithio ei gyflawni, disgwyliadau'r Awdurdod ac anghenion y gymuned. Gallai'r

cyfweliad gynnwys adolygiad o’r hyfforddiant a’r datblygiad a gafodd yr aelod dros y flwyddyn flaenorol.

4.2. Dylid nodi nad yw ADP yn Arfarniad o Berfformiad; ond yn fodd o gefnogi a datblygu aelodau. Nid oes gorfodaeth ar aelodau i gael ADP.

4.3. Gall unrhyw aelod sy'n dewis cael ADP wneud cais i'w arweinydd grŵp neu swyddog o'r Gwasanaethau Democrataidd gynnal y cyfweliad.

4.4. Mae gwybodaeth am y broses ADP a thempled cynllun datblygu personol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Yn anuniongyrchol, gallai’r broses adolygu datblygiad personol lywio cyfraniadau aelodau i’r Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Caiff y broses adolygu datblygiad personol ei chefnogi gan y tîm Gwasanaethau Democrataidd. Efallai y bydd angen cyfraniadau gan wasanaethau eraill neu asiantaethau allanol, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar gyfer gweithgareddau hyfforddiant a datblygu a nodwyd gan y broses. Mae'r costau'n debygol o ymwneud ag amser swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Y fforwm priodol ar gyfer ymgynghori ar y broses adolygu datblygiad personol yw'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Beth yw’r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r broses adolygu datblygiad personol wedi'i chynllunio i hyrwyddo datblygiad parhaus ar gyfer aelodau, a ddylai leihau unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag aelodau yn cyflawni eu swyddogaethau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad?

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.